

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 12 MAI 2022 AM 7.45YH**

1. Yn bresennol Y Cyng Janet Knott (Cadeirydd), Elfyn Williams, Philip Davies, Eifion Jones, Rheinallt Jones, Meinir James, Cyngorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc)

Ymddiheuriadau: Y Cyng Nicola Jones, Viv Davies a Shan Rees.

Nododd y Cadeirydd llongyfarchiadau'r Cyngor i'r Cynghorwyr Meinir James a Tyssul Evans ar eu hethol yn aelodau ward dros Ward Llangyndeyrn.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nododd y Clerc fod gofyniad bellach dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i roi cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n bresennol annerch y Cyngor neu ofyn cwestiynau ar unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda (ac eithrio'r rhai y bwriedir eu hystyried yn breifat).

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Canlyniadau Etholiadau'r Cyngor a threfniadau i lenwi seddi gwag ar gyfer aelodau'r Cyngor

Cyflwynodd y Clerc canlyniadau'r etholiad diwrthwynebiad o aelodau ar gyfer Cyngor Cymuned Llandyfaelog i aelodau. Nodwyd bod 2 sedd wag ar y Cyngor. Cadarnhaodd y Clerc y gwneir trefniadau i hysbysebu'r seddi ar gyfer cyfetholiad a fyddai'n cael ei hysbysebu yn y Gymuned ar gyfer dychwelyd datganiadau o ddiddordeb yn barod ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.

5. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Ebrill 2022.

6. Materion yn codi

- 1. Diogelwch ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog gyda'r A484** – Roedd y Cyng Elfyn Williams a Shan Rees wedi cyfarfod â Pheirianwyr y Cyngor Sir ar y safle i edrych ar welliannau posibl y gellid eu gwneud ar 27 Ebrill. Dosbarthwyd nodiadau o'r cyfarfod i aelodau. Derbyniwyd cynnig i ddarparu dwy golofn goleuo newydd ar y gyffordd gyda chost o £7,787.94. Cytunwyd y dylai'r Clerc ofyn am ddadansoddiad manwl o'r costau.
- 2. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan** – Nodwyd bod yr offer monitro cyflymder wedi'i osod yn ei le yn y dyddiau blaenorol.
- 3. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 4. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.

5. **Terfyn cyflymder 30mya ym Mhentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am yr ymgynghoriad ar y cynigion a amlinellwyd.
6. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Nodwyd.
7. **Materion traffig yng Nghroesyceiliog** – Roedd y Cyngor yn aros am yr ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer terfynau cyflymder a amlinellwyd ynghyd â gosod yr arwyddion 'pobl yn cerdded'.
8. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
9. **PL/02474** – Roedd cais cynllunio wedi cael ei derbyn ar y mater er ystyriaeth.
10. **FC29/24 – Nantllan** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
11. **FC29/4 Pentrepoeth** – Cafwyd cadarnhad y byddai ymweliad yn cael ei gynnal â'r llwybr yn yr wythnosau nesaf i asesu argaeledd mynediad ac unrhyw waith sydd ei angen. Nodwyd.
12. **Golau Solar yn Idole** – Codwyd y mater gyda'r peiriannydd Goleuadau Cyhoeddus yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
13. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole** – Derbyniwyd cadarnhad bod cyfnod o 2 fis wedi ei roi i'r preswlydd symud y garafán sydd yn y cae ar y 13eg o Ebrill. Nodwyd.
14. **Cyrb Gostyngedig Tir Gof** – Cadarnhawyd bod penderfyniad wedi'i wneud i ailraddio'r llwybr troed i leihau'r graddiant serth a darparu slabiau palmant cyffyrddol lliw llwydfelyn bob ochr i'r ffordd yn y lleoliad hwn er mwyn darparu cyferbyniad gweledol i helpu i amlygu'r newid mewn lefel. Roedd y gwaith hwn i'w gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. Nodwyd.
15. **Cinio Blynyddol y Cyngor 29ain Ebrill** – Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Cyng Elfyn Williams am drefnu Cinio Blynyddol y Cyngor yng Nghlwb Golff Caerfyrddin. Diolchodd y Cyng Williams i'r aelodau am eu presenoldeb. Nodwyd.
16. **Cwblhau gwaith datblygu ar Stad Maesglasnant** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater.

7. Gohebiaeth

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth mewn perthynas â datganiadau a wnaed gan aelodau o dan y Cod Ymddygiad ynghyd â phresenoldeb ar unrhyw hyfforddiant. Cadarnhaodd y Clerc fod y wybodaeth wedi ei darparu. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad o 1/3 o braesept 2022-23 sef £7,900.00. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi mis Mai. Nodwyd.
4. **Mater gorfodaeth – Gelligaeros, Idole** – Cadarnhaodd y Clerc cyswllt gan drigolion mewn perthynas â gweithgareddau prosesu sgrap posib sydd wedi eu cynllunio ar gyfer cyn safle GD Harries yn y lleoliad hwn. Roedd y mater wedi'i godi gyda'r Tîm Gorfodaeth Cynllunio a oedd yn ystyried y mater. Nodwyd.
5. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
6. **Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** – Cylchlythyr Ebrill. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Papurau ar gyfer Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill, derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cyng Elfyn Williams. Nodwyd.

8. **Archwilio Cymru** – Arolwg Cyngorau Cymuned a Thref ar Gydnerthedd Cymunedol. Nodwyd.
9. **Cadwch Gymru'n Daclus** – Cadarnhad bod y Cynllun Lleoedd Lleol i Natur ar agor ar gyfer ceisiadau 2022. Cytunwyd i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu'r cyfleusterau yng Nghae Idole.
10. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
11. **Eglwys Santes Ann** – Cadarnhaodd y Clerc cais am chwistrellu chwyn ar y ffordd ger muriau'r Eglwys. Cadarnhaodd y Clerc fod y mater wedi ei gyfeirio at y Cyngor Sir. Nodwyd.
12. **Llywodraeth Cymru** - Cylchlythyr Newid Hinsawdd. Nodwyd.
13. **Ffederasiwn CFFl Sir Gâr** – Tocynnau i fynychu Rali'r Ffermwyr Ifanc ar y 14eg o Fai. Bydd y Cadeirydd yn mynychu ar ran y Cyngor.

8. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Cafwyd cadarnhad gan yr yswirwyr eu bod bellach wedi dod o hyd i'r 3ydd parti ac wedi ysgrifennu atynt i'w gwahodd i gyfaddef atebolrwydd.

9. Atgyweiriwr y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr o waith ym mis Ebrill gyda chost o £420.00 yn cael ei gymeradwyo.

10. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Nododd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandyfaelog ar hyn o bryd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ddod yn Gyngor cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ystyriodd y Cyngor y materion a cytunwyd yn unfrydol i mabwysiadu penderfyniad yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn bodloni'r amodau yn unol ag Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei fod yn gyngor cymuned cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

11. Taliadau a Lwfansau Aelodau 2022-23

Darparodd y Clerc fanylion yr Adroddiad Blyneddol a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nodwyd bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn Gyngor Band C / Grŵp 4 o dan y Bandiau presennol.

Nododd y Cyngor ei bod yn ofynnol sicrhau bod swm o £150 ar gael i aelodau mewn perthynas â chostau treuliau. Bydd hwn yn cael ei dalu ym mis Chwefror 2023 drwy raglen Cyflog CTEM. Dylai aelodau hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliad.

Cytunodd y Cyngor ymhellach i beidio â darparu'r swm o £500 i aelodau â chyfrifoldebau penodol na'r £1,500 ar gyfer Pennaeth Dinesig. Cytunodd y Cyngor hefyd i beidio â gweithredu lwfans presenoldeb ar gyfer Aelodau. Nododd y Cyngor y cytunwyd ar Lwfans y Cadeirydd am y flwyddyn yn y Cyfarfod Blyneddol.

12. Cytundeb Yswiriant 2022-23

Cyflwynodd y Clerc y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer polisi Yswiriant y Cyngor fel a ganlyn:

- Zurich Municipal £623.21 (1 flwyddyn)
- Zurich Municipal £599.74 (3 flwyddyn)
- Zurich Municipal £576.28 (5 flwyddyn)
- Hiscox £1,312.50

Cytunwyd i adnewyddu'r polisi gyda Zurich Municipal am 5 mlynedd.

13. Digwyddiadau Cymunedol 2022

a) Jiwibili Platinwm Ei Mawrhydu'r Frenhines

Nododd y Clerc nad oedd cyfarfod cynllunio pellach wedi bod yn bosib a bydd yn symud ymlaen gyda chadarnhad o'r trefniadau ar gyfer y digwyddiad. Fodd bynnag, byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn 4ydd Mehefin am 2yp yn Neuadd Gymuned Llandyfaelog gyda Chadeirydd y Cyngor i gyflwyno'r mygiau i blant oed ysgol gynradd neu iau.

Cyflwynodd y Clerc enghraifft o'r mygiau coffaol a dderbyniwyd oddi wrth Printed 4 You. Nodwyd rhain gyda phleser.

Dosbarthodd y Clerc llythyrau i'w dosbarthu yn y Gymuned lle credid bod plant yn byw er mwyn sicrhau bod y cyfle yn cael ei ddarparu i bawb. Roedd y Cyngor hefyd yn aros am wybodaeth gan y Cyngor Sir a allai gynorthwyo gyda'r broses hon.

Cymeradwywyd taliad o £428.00 ynghyd â TAW i Printed 4 You.

b) Cystadleuaeth Gardd Gymunedol a Chystadleuaeth Bwgan Brain

Trafodwyd trefniadau'r Gystadleuaeth Ardd.

Roedd Mr Nigel Sheldon wedi cytuno i fod yn feirniad y gystadleuaeth am y flwyddyn. Roedd enwebiadau i'w rhoi i'r Clerc a gwneir trefniadau i wneud y beirniadu ym mis Mehefin ar gyfer gerddi llysiau ac Awst ar gyfer gerddi blodau.

14. Cynllunio

1. **PL/03803** - Dileu Amod 4 (Cadw estyniad i lagŵn slyri presennol at ddibenion lles) ar PL/00750 - Nantyoetre Isaf, Glanyfferi, SA17 5YA. Cytunwyd nad oedd y Cyngor yn teimlo bod cyfiawnhad dros ddileu'r amod ac y byddai'n gofyn iddo gael ei gadw.
2. **Asbri Planning** – Ymgynghori cyn gwneud cais cynllunio, cais cynllunio amlinellol arfaethedig ar gyfer hyd at 23 o gartrefi a gwaith cysylltiedig gan gynnwys gwelliannau priffyrdd oddi ar y safle, tir oddi ar Lon Santes Ann, Cwmffrwd. Roedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 9fed Mehefin a chytunwyd felly i ystyried y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

15. Cyfrifon

a) Cytunwyd y taliadau canlynol:

1. Printed 4 You £513.60 Mygiau'r Jiwbili (£428.00 gyda TAW £85.60)
Gweler eitem 13 a uchod

2.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ebrill a costau	£635.73	£26.00 £7.00 £11.70	£680.43	£256.80	£0.00	£423.63

3. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth £40.00

4. Cyng Elfyn Williams £350.00

5. Michael Leefe £420.00

6. Zurich Insurance £576.28

Cofretriad Gofalu Data 2022-23

Lwfans Cadeirydd 2021-22

Gweler eitem 12 uchod

Ebrill (gweler eitem 8)

Premiwm yswiriant 2022-23
(Gweler eitem 12)

16. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nododd yr aelodau eu dymuniadau gorau i'r cyn-Gadeirydd Glenn Jones a oedd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.
2. Nododd yr aelodau gyda thristwch fod Côr Dyffryn Tywi wedi'i chau a diolchwyd iddynt am eu gwaith yn y Gymuned dros nifer o flynyddoedd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd lau 9 Mehefin 2022.